

# ARTICULTURE

**Bwrsariaethau Celfyddydau Awyr Agored**  
**FRESH STREET - Cynhadledd Ryngwladol Celfyddydau Sycras a Stryd**  
**22 - 24 Mai 2019, Galway, Iwerddon**

## Ynghylch y Bwrsariaethau

Mae Articulture ac Irish Street Arts, Circus and Spectacle Network (ISACS) yn gwahodd ceisiadau gan unigolion proffesiynol celfyddydau awyr agored o Gymru i wneud cais am bedair bwrsariaeth unigol i fynychu 'Fresh Street' gan Circostrada - Cynhadledd Ryngwladol Celfyddydau Sycras a Stryd a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.

Circostrada yw'r rhwydwaith Ewropeaidd ar gyfer celfyddydau stryd a sycras, a FRESH STREET yw ei brif ddigwyddiad rhwydweithio ac arddangos. Yn gyfle rhagorol i rwydweithio ag artistiaid eraill, rhaglenwyr, ymchwilwyr, newyddiadurwyr a gwneuthurwyr polisi ar draws y byd, bydd y pedwar ymgeisydd llwyddiannus yn mynychu ochr yn ochr â'r tim Articulture, gan gynrychioli Cymru yn y cynulliad rhyngwladol hwn.

Y tro hwn cynhelir Fresh Street yn Galway, gyda pharatoadau ar gyfer Galway Prifddinas Diwylliant Ewrop 2020 yn mynd rhagddynt! Y ffocws fydd 'Pobl a Hunaniaeth', gan archwilio celfyddydau awyr agored fel offeryn ar gyfer newid cymdeithasol, diwylliannol, gwleidyddol ac economaidd. Gan ddewis model cynhadledd arloesol, bydd yn cynnwys un diwrnod o archwilio'r hyfryd Inis Oírr - Ynysoedd Aran gan ganolbwyntio ar wneud gwaith mewn lleoliad gwledig.

Nod y bwrsariaethau yw helpu i greu arena ehangach o rannu, cysylltiadau a chydweithio ar gyfer datblygiad celfyddydau awyr agored yng Nghymru, yn ogystal â sicrhau presenoldeb Cymreig amlwg yn y digwyddiad rhyngwladol blaenllaw hwn. Ariennir y bwrsariaethau gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Rhagor o fanylion ac i archebu - [www.circostrada.org/en/fresh-street3](http://www.circostrada.org/en/fresh-street3)

## Gwneud cais am Fwrsariaeth

**Cyfanswm o 4 bwrsariaeth ar gael.** Y bwrsari yw cyfrannu at eich teithio a'ch cynhaliaeth. Darperir tocyn i'r digwyddiad, yn ogystal â llety sylfaenol gydag eraill yn agos at y digwyddiad am 3 noson (dydd Mercher 22 - dydd Gwener 24 Mai). Bydd Articulture yn cynnal y grŵp o ymgeiswyr bwrsariaeth llwyddiannus yn anffurfiol, gan ddarparu cyfarwyddyd trwy gydol y digwyddiad.

# ARTICULTURE

Rhaid i ymgeiswyr allu mynychu'r tri diwrnod yn llawn

**Mae ymgeisio'n ddigon syml - anfonwch e-bost atom ni i [rosie@articulture-wales.co.uk](mailto:rosie@articulture-wales.co.uk), gan gynnwys -**

- Eich enw a'ch cyfeiriad
- Disgrifiad byr iawn o'ch gwaith (wedi'i gefnogi gan CV/gwefan/lluniau fel y dymunwch)
- Ychydig frawddegau ynglŷn â'r hyn y gobeithiwch ei 'roi' a'r hyn y gobeithiwch ei 'ennill' gyda'ch bwrsariaeth celfyddydau awyr agored

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 20 Mawrth, 5pm. Cysylltwch â Rosie ar 07966 071073 gyda'ch ymholiadau.**